

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Polisi Iaith Cyngor Gwynedd

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Diwygio Polisi Iaith y Cyngor i adlewyrchu newidiadau mewn dulliau gweithredu, ac i gryfhau ymrwymiad y Cyngor i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Bwriad y Polisi Iaith yw sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sydd yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae yn ateb y gofyn statudol dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i sicrhau hawl pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r Cyngor, ac yn cyfrannu at yr amcan llesiant i sicrhau bod trigolion yn gallu "byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg", ac amcan gwella'r Cyngor i "helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg".

Nid oes newid wedi bod yn y ddeddfwriaeth a'r gofyn statudol o safbwynt cynnig gwasanaethau Cymraeg, ond roedd angen addasu'r Polisi er mwyn rhoi arweiniad cliriach ar yr hyn mae gofynion Safonau'r Gymraeg yn ei olygu yn ymarferol ac yng nghyd-destun gwaith dydd i ddydd swyddogion, ac hefyd i roi arweiniad ar feysydd lle nad oes Safonau perthnasol.

Newidiadau hefyd wedi eu gwneud i adlewyrchu gwaith prosiectau blaenoriaeth ym maes y Gymraeg (Prosiect Dynodiadau, Prosiect Enwau Lleoedd) ac uchelgais y Cyngor i fod yn canfod ffyrdd o fynd y tu hwnt i ofynion y Safonau a chodi proffil yr iaith yn y sir, yn weledol ac ar lafar. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniad i arddel enw Cymraeg y Cyngor (Cyngor Gwynedd) yn unig lle y mae'n bosib o hyn ymlaen.

Mae'r diwygiadau i'r Polisi felly yn cryfhau safbwynt y Cyngor eu bod yn mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau ac yn gweithredu mewn modd sydd yn rhoi y Gymraeg gyntaf bob amser.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gwenllian Williams, Ymgynghorydd Iaith, Uned Iaith a Chraffu, Cyngor Gwynedd

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1 – 14.09.21

Fersiwn 2 – diweddariad wedi ymgynghori – Gorffennaf 2022

Fersiwn 3 – diweddariad wedi mewnbwn Ymgynghorydd Cydraddoldeb – Awst 2022

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Swyddogion a Phenaethiaid Adrannau Cyngor Gwynedd

Trigolion

Pwyllgor Iaith

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi gan nad yw'r newidiadau yn effeithio ar y gwasanaethau a gynnigir i'r cyhoedd. Mae'r gofyn statudol yn aros yr un fath, ond bod newidiadau eu hangen i roi eglurder i staff ac i adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol y Cyngor.

Credwyd serch hynny ei bod yn bwysig cynnwys barn pobl gyda gwahanol nodweddion ac mae ymgysylltu wedi ei gynnal efo Grŵp Craidd Cydraddoldeb ar y polisi presennol a'i effaith posib ar rai grwpiau penodol.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Atodiad – crynodeb ymgynghori

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cwynion sydd wedi bod yn cael eu derbyn gan yr Uned Iaith a Chraffu, a thestunau ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi amlygu rhai gwendidau o ran arweiniad y polisi ac ymwybyddiaeth staff o union ofyn y Safonau.

Roedd angen i ychwanegu ac addasu rhai cymalau hefyd fel rhan o gamau gweithredu a osodwyd yn sgil ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Roedd angen amlwg felly i adolygu'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi yr arweiniad gorau posib i staff, ac yn lleihau nifer y cwynion a dderbynir.

Mae'r trafodaethau mewnol a gynhaliwyd gyda'r canlynol hefyd yn ychwanegu at y sail tystiolaeth, gan eu bod wedi ein helpu i adnabod y gwendidau a chael trafodaeth am y bylchau yn y polisi neu rwystrau wrth weithredu.

- Grwpiau swyddogion ar bynciau/rhannau penodol o'r polisi
- Bwrdd Prosiect Dynodiadau Iaith
- Penaethiaid adrannau'r Cyngor
- Pwyllgor Iaith
- Aelodau Cabinet

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid ydym yn credu bod bylchau yn y dystiolaeth ar hyn o bryd, ond byddwn yn monitro gweithrediad y polisi ac yn cadw golwg ar unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth sydd yn amlygu eu hunain drwy ymholiadau neu gwynion.

Mae'r Uned Iaith a Chraffu newydd sefydlu trefn hunanasesu newydd, gyda phob adran o fewn y Cyngor yn llenwi holiadur blynyddol sydd yn nodi sut y maent yn llwyddo i gydymffurfio gyda gofynion y Safonau a'r Polisi Iaith. Bydd hyn yn ffordd i ni adnabod unrhyw wendidau a gweithredu arnynt ar unwaith. Bydd hefyd yn ein galluogi i adnabod os oes unrhyw aneglurder neu addasiadau pellach eu hangen i'r Polisi.

..

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif / negyddol / dim	<p>Mae gwybodaeth sydd yn cael ei gasglu o arolygon / ymgynghoriadau cyhoeddus gan y Cyngor - ac yn arbennig felly adborth sydd wedi ei dderbyn yn ddiweddar gan gyd-swyddogion yn sgil ymgynghori cyhoeddus gan yr Uned Gydraddoldeb yn edrych ar rwystrau sydd yn wynebu'r cyhoedd wrth ymwneud efo'r Cyngor, ac ymgysylltu gan dim y we ar ddefnydd y cyhoedd o'r wefan – yn dangos bod rhai agweddau negyddol yn bodoli am bolisi iaith y Cyngor a rhagdybiaeth ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o hil gwahanol neu o leiafrifoedd ethnig (h.y. pobl sydd ddim yn drigolion brodorol).</p> <p>Mae nifer o gwynion wedi eu derbyn dros y blynyddoedd diweddar hefyd sydd yn awgrymu y gallai rhai deimlo bod y Polisi iaith yn hiliol ac yn gwahaniaethu. Mae'r cwynion hyn wedi ymwneud yn bennaf gyda'r elfen recriwtio a'r gred bod y Polisi iaith yn gwadu cyfleoedd gwaith i bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg. Er nad yw iaith yn nodwedd cydraddoldeb warchoddedig, mae hyn yn aml yn cael ei gysylltu yn uniongyrchol gyda'r agwedd hil.</p> <p>Gellir ystyried bod rhywfaint o ffaith negyddol posib felly wrth i gamddealltwriaeth am y polisi recriwtio greu argraff o wahaniaethu yn erbyn pobl di-Gymraeg/ sydd ddim efo cenedligrwydd Cymreig neu bobl sydd wedi symud i'r ardal ac heb fynd drwy system addysg y sir.</p> <p>Ar yr un pryd, mae peryg i'r cyfeiriad at ofynion ieithyddol o fewn adran recriwtio y polisi gael effaith negyddol ar garfan o siaradwyr Cymraeg wrth i bobl deimlo eu bod yn cael eu cau allan o gyfleoedd am nad yw Cymraeg yn ddigon da. Mae hyn yn deillio o ragdybiaeth bod sgiliau "hanfodol" yn golygu sgiliau rhugl, lefel uwch.</p> <p>Mae posib bod elfen o wirionedd yn hyn gan bod rhai swyddi yn bodoli lle na fyddai posib recriwtio rhywun heb y sgiliau iaith Gymraeg priodol heb i hynny effeithio ar y gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu.</p> <p>Daw effaith gadarnhaol ar y llaw arall yn sgil y ffaith bod y polisi yn ateb gofyn statudol i warchod hawl unigolion i wasanaethau Cymraeg a bod y cymalau recriwtio yn fodd o sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddi-dor. Er bod y polisi yn ymwneud yn benodol efo'r Gymraeg ac yn nodi bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, nid oes unrhyw fwriad i beidio cyfathrebu a chynnig gwasanaethau yn Saesneg hefyd, ac felly nid oes effaith negyddol ar allu pobl i gael gafael ar wasanaethau.</p>

		<p>Mae cymalau recriwtio'r polisi yn sicrhau bod nifer digonol o'r gweithlu yn gallu'r Gymraeg er mwyn ateb anghenion ieithyddol (Cymraeg) y boblogaeth, ac i gynnig cyfleoedd i weithwyr ddatblygu eu sgiliau.</p> <p>O ran gwahaniaethu yn erbyn trigolion o leiafrifoedd ethnig, sydd o bosib yn siarad ieithoedd eraill heblaw y Gymraeg a'r Saesneg, gellir ystyried bod effaith negyddol i'r polisi gan nad yw'n rhoi yr un hawliau i drigolion gael gwasanaethau mewn ieithoedd eraill. Gan mai polisi iaith Gymraeg ydyw hwn, sydd wedi ei lunio i amlinellu cyfrifoldebau statudol dan Fesur y Gymraeg i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ac amlinellu sut y defnyddir y Gymraeg (a'r Saesneg) yng ngweithrediadau'r Cyngor, ni fwriedir iddo ddelio gydag/cyfarch anghenion y boblogaeth o ran ieithoedd eraill.</p> <p>Mae'r Cyngor serch hynny yn cyfarch gofynion ieithoedd eraill drwy ei gyfrifoldebau Cydraddoldeb, ac wedi ymrwmo i gynnig darpariaeth lle bo'r angen er enghraifft anghenion cyfieithu mewn cyfarfodydd llesiant.</p>
<p>Anabledd</p>	<p>Positif / negyddol / dim</p>	<p>Gan fod y Polisi yn ymwneud yn benodol efo cyfrifoldeb statudol i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog, a chyda cyfrwng iaith cyfathrebu yn hytrach na dulliau cyfathrebu mwy cyffredinol, nid oedd unrhyw effaith negyddol wedi ei adnabod yn ystod y gwaith ymgysylltu. Serch hynny, codwyd rhai materion yn ystod yr ymgynghori gyda'r grŵp Craidd Cydraddoldeb y dylid eu hystyried wrth weithredu'r polisi o gynhyrchu deunyddiau dwyieithog a hygyrchedd gwasanaethau yn gyffredinol.</p> <p>Nodwyd y gallai'r arfer o gynhyrchu deunyddiau dwyieithog gael effaith negyddol ar bobl sydd a nam ar eu golwg, gan y gallai'r angen i ddefnyddio print man neu orfod gwasgu llawer o gynnwys ar un dudalen effeithio ar eu gallu i ddarllen deunyddiau cyhoeddus.</p> <p>Gallai'r pwyslais ar gynhyrchu deunyddiau gwybodaeth ysgrifenedig gael effaith negyddol ar bobl gyda nam ar eu clyw. Gallai'r angen i ddefnyddio clustffonau er mwyn clywed cyfieithu mewn cyfarfodydd hefyd greu problemau (ni fyddai hyn yn gymaint o broblem gyda chyfarfodydd ar-lein).</p> <p>Mae effaith negyddol posib hefyd i bobl gydag anawsterau deallusol, os nad yw'r Cyngor yn dilyn arweiniad y polisi i gynhyrchu deunyddiau sydd yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir. Mynegwyd y farn bod y Cyngor yn defnyddio iaith rhy ffurfiol, jargonistaidd, a bod angen gweithio ar gynhyrchu deunyddiau fwy syml ac eglur.</p> <p>Fel y nodir yn barod, mae'r polisi yn ateb gofyn statudol i gynhyrchu deunyddiau a darparu gwasanaethau Cymraeg yn hytrach na dulliau cyfathrebu, felly ni ystyrir bod angen gwneud newidiadau yn sgil y sylwadau hyn, ond gan fod dyletswydd ehangach ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i liniaru unrhyw rwystrau i drigolion wrth geisio cael gafael ar wasanaethau neu</p>

		<p>wybodaeth byddwn yn ystyried camau lliniaru priodol ar gyfer y rhwystrau hyn.</p> <p>Mae effaith gadarnhaol i'w gael ar unrhyw grwpiau o bobl sydd ag anableddau hefyd, gan bod y Polisi yn dilyn yr egwyddor o gynnig rhagweithiol a osodir yn Fframwaith Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod y ffaith bod cynnig gwasanaethau yn iaith gyntaf unigolion yn gallu bod yn allweddol mewn achos o salwch neu anabledd, bod unigolion yn gallu mynegi eu hunain yn well yn eu hiaith eu hunain, ac felly ei fod yn rhan allweddol o gynnig gofal a gwasanaeth o safon. Mae cynnig gwasanaethau Cymraeg a sicrhau bod staff sydd yn gallu'r Gymraeg ar gael i siarad efo'r cyhoedd (yn rhagweithiol a heb orfod gofyn am hynny) yn egwyddor allweddol yn y polisi ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn ffordd sydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl gydag anableddau sydd hefyd yn siaradwyr Cymraeg.</p>
Rhyw	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Oedran	Positif / negyddol / dim	<p>Effaith gadarnhaol o ran sicrhau gwasanaethau sydd yn ateb gofyn ac angen y cyhoedd ac yn sicrhau gwasanaethau o safon i grwpiau oedran bregus.</p> <p>Mae'r ystadegau cyfrifiad yn dangos bod canran uwch o bobl hyn yn siaradwyr Cymraeg ac felly mae'r angen i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r garfan hon o'r boblogaeth yn fwy.</p> <p>Fel y nodir uchod, mae'r Polisi yn dilyn yr egwyddor o gynnig rhagweithiol a osodir yn Fframwaith Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru. Mae gweithredu'r polisi yn sicrhau nifer digonol o staff sydd yn gallu'r Gymraeg i allu gwneud y rhagweithiol ac yn cael gwared ar rwystrau i bobl hyn drwy sicrhau nad oes rhaid iddynt ofyn nac aros am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Ailbennu rhywedd	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Yr iaith Gymraeg	Positif / negyddol / dim	Effaith positif ar y cyfan oherwydd bod y polisi yn adlewyrchu ymrwymadau statudol y Cyngor i weithredu Safonau'r Gymraeg ac hefyd dymuniad y Cyngor i fod yn hybu'r iaith ac yn cynnig

cyfleoedd amrywiol i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae gan y Cyngor strategaeth iaith sydd yn amlinellu ei amcanion i hybu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir, ac mae'r Polisi hwn yn cyfrannu at amcanion maes Blaenoriaeth 3- Iaith Gwaith a Gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i'r nod llesiant o weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod trigolion yn gallu byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg" drwy Gynllun y Cyngor.

Mae rhai effeithiau negyddol posib ar gyfer rhai agweddau, y manylir arnynt isod.

Cyffredinol:

Cyfle i atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg ac i gymryd camau cadarnhaol i sicrhau hawl trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg drwy wasanaethau'r Cyngor.

Mae'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud i'r polisi ers y polisi blaenorol yn sicrhau bod arweiniad clir i staff am sut y dylid cynnig gwasanaethau yn Gymraeg a chydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fynd y tu hwnt i ofyn y Safonau ac yn rhoi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg yn ei weithrediadau.

Mae'r newidiadau sydd yn cael eu cyflwyno yn ymgais i gael effaith fwy gadarnhaol ar y Gymraeg a hawliau trigolion i'w defnyddio. Mae hyn yn cynnwys:

Sgiliau iaith – dynodiadau iaith:

Mae cwynion wedi eu derbyn yn y gorfennol am bolisi recriwtio y Cyngor, a'r ffaith bod posib i'r polisi wahaniaethu yn erbyn y di-Gymraeg.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan o gyfleoedd oherwydd y gofyn am sgiliau iaith hanfodol a'r teimlad nad yw eu Cymraeg yn ddigon da i gwrdd a'r gofynion.

Mae prosiect blaenoriaeth y Dynodiadau Iaith wedi bod yn cael ei weithredu i geisio ymateb i'r heriau yma ac i edrych ar y ffordd rydym yn asesu anghenion iaith swyddi a sut rydym yn recriwtio pobl i'r swyddi.

Mae newidiadau mawr wedi eu gwneud i'r broses recriwtio yn sgil y prosiect, a threfn asesu sgiliau newydd wedi ei sefydlu. Mae'r cymalau newydd yn y polisi felly yn adlewyrchu y newidiadau hynny.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd ein bod yn symud i ffordd oddi wrth nodi gofynion iaith hanfodol, a manylu ar yr union sgiliau oedd eu hangen er mwyn ceisio agor y drws i ymgeiswyr swyddi gwahanol, ac i gynnig cyfleoedd i bobl ddysgu a throchi eu hunain mewn gweithlu cyfrwng Cymraeg, mae rhai o ofynion y Safonau yn golygu bod dal peryg i'r Polisi gael ei weld fel un sydd yn gwahaniaethu.

Er bod y prosiect Dynodiadau wedi penderfynu peidio a defnyddio y gair "hanfodol" mewn hysbysebion swyddi, er enghraifft, er mwyn ceisio lleihau yr effaith negyddol a'r posibilrwydd o edrych fel bod y Cyngor yn gwahaniaethu, mae gofynion y Safonau a chamau gweithredu yn sgil ymchwiliad gan y Comisiynydd wedi golygu ein bod yn gorfod defnyddio y gair hanfodol.

Technoleg:

		<p>Mae cymalau newydd wedi eu creu i adlewyrchu defnydd cynyddol y Cyngor o dechnoleg a hunanwasanaeth ar-lein. Mae hwn yn faes lle mae posib i'r Cyngor beidio a gwireddu ei uchelgais gan nad yw bob amser yn bosib cael apiau a systemau sydd yn gweithio yn gyfangwbl Gymraeg ac sydd ar gael i bawb (rhai apiau ddim yn gweithio yn ddwyieithog ar bob ffon android) ond mae camau hefyd yn cael eu cymryd i ddatblygu nifer o systemau yn fewnol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cynnig darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd.</p> <p>Enwau lleoedd ac enw'r Cyngor: Mae cymalau newydd wedi eu hychwanegu i'r Polisi i adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i warchod enwau lleoedd Cymraeg o fewn y sir, ac hefyd i godi proffil gweledol yr iaith drwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn unig yn nelwedd gyhoeddus y Cyngor ac wrth ddefnyddio enwau llefydd.</p> <p>Mae asesiad effaith unigol wedi ei wneud ar gyfer y Prosiect Enwau Lleoedd a'r effeithiau posib ar y Gymraeg wedi eu hystyried wrth drafod arddel enwau Cymraeg y Cyngor ac enwau strydoedd a llefydd y sir.</p> <p>Mae'r rhain yn seiliedig ar gymalau oedd yn bodoli yn y Cynllun Iaith yn hanesyddol, ac sydd yn adlewyrchu arferion cyfredol neu egwyddor sydd yn cael ei arddel gan y Cyngor yn hytrach na bod yn newid fel y cyfryw.</p>
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif / negyddol / dim	<p>Codwyd nifer o bwyntiau yn y Grŵp Craidd Cydraddoldeb ynghylch hygyrchedd gwasanaethau a gwybodaeth yn fwy cyffredinol, ond maent hefyd yn berthnasol i'r Polisi ac yn faterion fydd angen ystyriaeth bellach wrth weithredu. Nodwyd bod effaith bosib i rai grwpiau o ran mynediad i wasanaethau wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein. Mae peryg bod y dull gweithredu yma yn mynd i gau rhai aelodau o'r gymdeithas allan o ddefnyddio gwasanaethau yn effeithiol oherwydd diffyg mynediad i dechnoleg. Mae hyn hefyd wedi ei nodi yn yr ymatebion diweddar i waith ymgynghori gan yr Uned Gydraddoldeb ar rwystrau i bobl ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.</p>

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
---	------------------------------	--

Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi / nac ydi / posib	Ni ystyrir bod unrhyw gam-wahaniaethu anghyfreithlon oherwydd bod gofyn statudol wedi ei osod ar y Cyngor drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y Cyngor yn gweithredu'r Polisi Iaith er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, h.y. bod gwasanaethau dwyieithog cyson a di-dor ar draws y sir ac nad oes rhaid i bobl gymryd camau ychwanegol i gael gafael ar y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi / nac ydi / posib	Rydym yn cydnabod bod rhai yn teimlo nad ydynt yn gallu ymgeisio am swyddi oherwydd y gofynion ieithyddol a bod hynny yn creu risg o ran cynnig cyfle cyfartal.
Meithrin perthnasau da	Ydi / nac ydi / posib	Cydnabod bod posib codi gwrychyn wrth i bobl gamddeall bwriad y Polisi ac y gallai hynny effeithio ar berthynas dda. Bydd angen meddwl am sut y byddwn yn cyfathrebu bwriadau ac amcanion y polisi yn gyhoeddus er mwyn datblygu dealltwriaeth a magu agweddau a pherthynas gadarnhaol gyda'r carfanu hynny o'r gymuned sydd yn teimlo eu bod ar hyn o bryd dan anfantais oherwydd y polisi.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r Polisi wedi ei ysgrifennu i adlewyrchu gofynion statudol Safonau'r Gymraeg ac ymrwymiad y Cyngor drwy'r Cynllun Hybu a Chynllun y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Dim ar hyn o bryd. Gan mai diwygiad er mwyn cryfhau y polisi sydd dan sylw, credwn ein bod wedi gwneud yr holl newidiadau posib ar hyn o bryd i gael yr effaith fwyaf cadarnhaol posib ar y Gymraeg. Os bydd cyfleoedd eraill yn codi, byddwn yn eu hystyried ar y pryd.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Rydym eisoes wedi nodi bod effaith bosib i rai grwpiau o ran mynediad i wasanaethau wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein ac oherwydd diffyg mynediad i dechnoleg. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hefyd ar gael drwy'r ffyrdd traddodiadol. Byddwn yn llunio cynllun cyfathrebu er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r newid.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Nid oes newid i'w wneud i'r polisi ei hun, ond bydd rhaglen gyfathrebu yn cael ei datblygu er mwyn rhannu negeseuon am y polisi ymysg staff a'r cyhoedd. Bydd cynyddu dealltwriaeth am fwriad ac amcanion y polisi gobethio yn gwella'r canfyddiad am anfantais.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, positif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Effaith positif ar yr iaith Gymraeg.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Na
Mae'r Polisi yn adlewyrchu gofyn statudol a'r angen i ateb anghenion ieithyddol y cyhoedd ar draws y sir.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	x
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	

Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd angen cynnal sgysiau pellach gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb a'r Uned Gyfathrebu er mwyn sicrhau bod y materion hygyrchedd a gafodd eu codi wrth ymgynghori yn cael eu cyfarch.

Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd o ddatblygu dealltwriaeth y cyhoedd o'r polisi fel rhan o'r rhaglen gyfathrebu, gan roi sylw i pam ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth a phwyslais arbennig ar ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ei wasanaethau.

Mae nifer o gynlluniau eraill yn cael eu gweithredu gan y Cyngor sydd yn gweithredu fel camau lliniaru rai o'r effeithiau negyddol posib, ac yn enwedig yr effeithiau a nodir dan y pennawd hil. Mae cyfleoedd amrywiol yn cael eu cynnig gan y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol, sydd yn rhoi cyfleoedd i bobl ymgeisio am swyddi pan nad ydynt yn cyrraedd y dynodiad iaith. Bydd y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cyfeirio staff at ddarpariaethau allanol neu yn trefnu hyfforddiant pwrpasol er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau. Mae cynllun cyfeillio hefyd wedi ei sefydlu sydd yn cynnig cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr y Gymraeg ddefnyddio'r iaith a magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor yn nodi y bydd yn gweithio i "hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg ein gweithlu."

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu yn ddwyieithog, i sicrhau hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Byddwn yn ailymweld efo'r asesiad effaith os bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Polisi yn amlygu eu hunain yn sgil cwynion neu ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae trefn hunanasesu adrannol hefyd wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth reolaidd am allu adrannau a gwasanaethau i gydymffurfio gyda'r Safonau Iaith a Pholisi Iaith y Cyngor.

